

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams, Swyddog Polisi
Sefydliad: UCAC
E-bost: rebecca@ucac.cymru
Cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Y Tîm Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol
Llywodraeth Cymru
DiwygioPCET@llyw.cymru
Parc Cathays 2, Caerdydd, CF10 3NQ

Y Comisiwn

Cwestiwn 1:

A yw'r fframwaith llywodraethiant arfaethedig yn briodol o ystyried cylch gwaith y Comisiwn newydd?

Penodiadau Gweinidogol: Mae gan UCAC bryder ynghylch priodoldeb rhoi'r cyfrifoldeb dros benodi'r Cadeirydd, Prif Weithredwr ac aelodau anweithredol o'r Bwrdd yn nwylo'r Gweinidogion. Os yw'r Comisiwn am fod yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru ond sy'n gweithredu *hyd braich* oddi wrthi, bydd angen sicrhau nad yw dylanwad y Llywodraeth yn rhy gryf ac uniongyrchol, nac yn cael ei *ganfod* felly ymhlith y gwahanol gategoriâu o ddarparwyr dan sylw, nac ymhlith y cyhoedd. Mae UCAC o'r farn bod y cynnig yn rhoi lefel amhriodol o uchel o rym a dylanwad yn nwylo'r Llywodraeth.

Maint ac aelodaeth y Comisiwn: Er y deallwn yr angen am Gomisiwn nad yw'n anhylaw o fawr, nid yw'n rhwydd gweld sut y gellid cynrychioli'r holl fuddiannau dan sylw a'r ystod o arbenigedd fydd ei hangen gydag uchafswm o 15 aelod, hynny yw:

- pob un o'r categorïau o ddarparwyr a gynigir eu cwmpasu
- oddi fewn i bob categori o ddarparwyr, y gwahanol grwpiau e.e. cyflogwyr, staff, dysgwyr
- meysydd arbenigedd e.e. cynllunio, sicrhau ansawdd, ymchwil ac arloesi

Cyfeirir at sicrhau y cedwir o leiaf dau le ar gyfer cynrychiolwyr dysgwyr; ni sonnir o gwbl am sicrhau llefydd ar gyfer cynrychiolwyr staff. Awgryma UCAC bod sicrhau'r cyfryw lefydd yn anhepgorol.

Pwyllgorau statudol: Cymerwn mai aelodaeth ar wahân/ychwanegol fyddai aelodaeth y pwyllgorau statudol arfaethedig (wedi'u cyfethol), yn hytrach nag is-bwyllgorau o blith aelodaeth y Comisiwn. Byddai'n anodd dychmygu bod gan y Comisiwn ei hun y capasiti i boblogi'r holl bwyllgorau, er y gellid rhagweld aelod o'r Comisiwn yn cadeirio pob un ac yn adrodd yn ôl i'r Comisiwn.

Unwaith eto, ni chyfeirir yn y rhestr arfaethedig o bwyllgorau statudol at bwyllgor yn ymwneud â materion yn ymwneud â'r gweithlu, materion cyflogaeth ac ati.

Cwestiwn 2:

A ydych chi'n meddwl y dylai fod yna bwyllgor statudol o fewn fframwaith llywodraethiant statudol y Comisiwn i gefnogi'r Gymraeg a'r gwaith o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Gymraeg?

Cytuna UCAC â'r cynnig. Fodd bynnag, dylid gochel rhag canoli'r holl arbenigedd ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg mewn un pwyllgor. Mae agweddau o ddarpariaeth a threfniadaeth Gymraeg yn ganolog i bob un o'r meysydd eraill a grybwyllwyd fel cynigion ar gyfer pwyllgorau statudol. Bydd angen sicrhau lefel briodol o arbenigedd mewn perthynas â'r Gymraeg ar bob un o'r pwyllgorau.

Cwestiwn 3:

A ydych chi'n cytuno y dylid gwneud Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru yn rhan o'r Comisiwn i gryfhau cysylltiadau rhwng y Comisiwn a chyflogwyr?

Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn

Cwestiwn 4:

A yw'r cyfrifoldebau y bwriedir eu dyrannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn o ran gwaith cynllunio strategol yn briodol?

Ar y cyfan, mae'r dyraniad yn ymddangos yn synhwyrol, gyda'r prif gyfrifoldeb am gynllunio lefel uchel yn nwylo'r Llywodraeth, y cyfrifoldeb am gynllunio strategol manylach yn nwylo'r Comisiwn gyda'r angen am sêl bendith gan y Llywodraeth at bwrpas atebolrwydd.

Byddai angen sicrhau bod y cynllunio lefel uchel, yn ogystal â'r grym i roi sêl bendith o fewn Llywodraeth Cymru, yn cwmpasu Gweinidogion a gweision sifil sy'n cynrychioli'r ystod gyfan o ddarparwyr a buddiannau, gan y gall y rhain fod wedi'u gwasgaru. Nid yw cydweithio a chyd-drafod o'r fath wastad wedi bod yn nodwedd o *modus operandi* r Llywodraeth ac mi fydd yn gwbl greiddiol i'r gwaith hwn er mwyn sicrhau cydbwysedd a chydlyniad rhwng y darparwyr niferus ac amrywiol dan sylw.

Mae sawl cyfeiriad at ymgynghori mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn; crybwyllir busnesau/diwydiant, darparwyr dysgu, dysgwyr - ond ni chyfeirir unwaith at y gweithluoedd perthnasol. Cred UCAC yn gryf y dylid enwi'r gweithlu/gweithluoedd yn benodol wrth gyfeirio at ymgynghori, a pheidio cymryd yn ganiataol eu bod yn dod dan bennawd 'rhanddeiliaid eraill'. Mae hyn yn wir drwyddi draw yn y ddogfen ymgynghorol.

Cwestiwn 5:

A yw'r cynigion ar gyfer delio â chyllid yn briodol, pe bai Llywodraeth Cymru yn atal ei chymeradwyaeth i'r cynllun strategol? Pa fesurau diogelu neu dros dro y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 6:

Ar wahân i atal cymeradwyaeth i'r cynllun strategol, pa bwerau ymyrryd y gallai fod eu hangen ar Weiniogion Cymru i sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau ac yn bodloni telerau ei gynllun strategol?

Cwestiwn 7:

A fyddai cylch pum mlynedd yn gyfnod priodol ar gyfer cynllun strategol y Comisiwn neu a ddylid caniatáu elfen o hyblygrwydd?

Mae cyfnod o bum mlynedd yn ymddangos yn rhesymol – ac yn cyd-fynd â chylchoedd etholiadol y Cynulliad. Ond gellid ystyried sicrhau elfen o hyblygrwydd pan fo angen yn ogystal.

Y berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr dysgu

Cwestiwn 8:

Yn adran reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau, a oes yna faterion eraill y dylid eu cynnwys? Os felly, beth yw'r rheini? A ddylid cael gwared ag unrhyw faterion? Os felly, pa rai?

Mae'r adran sy'n ymwneud â rheoleiddio yn teimlo'n chwithig am nifer o resymau.

Cyfeirir at y ffaith fod darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn 'gorfod bodloni gofynion cytundebol trwyadl sy'n cynnwys y mathau o faterion sy'n cael sylw yn y Cytundeb'. Fodd bynnag, ni chyfeirir o gwbl at y ffaith bod categorïau eraill o ddarparwyr eisoes yn gorfod bodloni gofynion – neu o leiaf rhai gofynion – o'r math sy'n cael eu cynnig ar gyfer y Cytundeb Rheoleiddiol a Deilliannau.

Mae gan bob un o'r categorïau o ddarparwyr eu trefniadau sicrhau ansawdd. Nid yw rheoleiddio'n cyfateb â sicrhau ansawdd, ond gall fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y ddwy broses, ac felly mae angen gofal o'r mwyaf i osgoi dryswch ac, yn bennaf oll, dyblygu a biwrocratiaeth ddiangen. Gwêl UCAC beryglon gwirioneddol yma.

O ran geiriad penodol, ai 'systemau rheoli a llywodraethiant effeithiol' yw'r gofyniad a ddymunir, neu 'rheoli a llywodraethiant effeithiol'; hynny yw, a yw'r ffocws ar y systemau sydd yn eu lle, neu ar ansawdd y rheoli a'r llywodraethiant oddi fewn i'r systemau hynny?

Er bod paragraff 78 yn cyfeirio'n benodol at ddosbarthiadau chwech, nid yw'n rhwydd rhagweld sut yn union y byddai'r drefn reoleiddio a gynigir yn gweithio mewn perthynas ag Awdurdodau Lleol ar ran ysgolion â chweched dosbarth.

Cwestiwn 9:

Rydym yn cydnabod, yng ngoleuni eu rhwymedigaethau cytundebol, na fyddai'n ofynnol i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith fod â statws elusennol er mwyn cael cyllid cyhoeddus. Ond a ddylai fod yn ofynnol i fathau eraill o ddarparwyr dysgu fod â statws elusennol er mwyn cael cyllid o'r fath? Beth fyddai'r manteision a'r anfanteision?

Mae'r adran hon fel petai'n anwybyddu'r ffaith nad oes statws elusennol gan y mwyafrif helaeth o ysgolion (gwaherddir cyrff llywodraethu ysgolion cymunedol ac ysgolion cymunedol arbennig rhag fod yn elusennau gan y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998), nac ychwaith gan Awdurdodau Lleol; mae'n gwneud yr adran gyfan yn anodd iawn i'w chymhwyso i ddosbarthiadau chwech, ac mae'n arwain at y cwestiwn: pam bod angen cynnwys y trydydd maen prawf ynghylch statws elusennol? Os mai sicrhau nad oes unrhyw elfen o gyllid cyhoeddus yn mynd

at gyfranddalwyr 'sefydliadau sy'n bodoli i wneud elw', mae'n siŵr bod ffyrdd eraill o sicrhau hynny.

Cwestiwn 10:

A ddylai Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg fod yn gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn o dan Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau? Os felly, sut gallai fod angen addasu elfen reoleiddio Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau i adlewyrchu'r ffaith nad yw Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg yn darparu dysgu?

Cwestiwn 11:

Os na ddylid eu hariannu o dan Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, ym mha amgylchiadau a thrwy ba fecanweithiau y dylid eu hariannu? Pa fecanwaith/fecanweithiau y gellid ei/eu sefydlu i sicrhau defnydd priodol o unrhyw gyllid cyhoeddus y gallai Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg ei gael?

Cwestiwn 12:

Pe bai darparwyr dysgu nad oedd ganddynt statws elusennol yn gallu dod i gytundeb rheoleiddio, sut y gallai hynny fod yn wahanol i elfen reoleiddio'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau a ddefnyddir ar gyfer darparwyr dysgu eraill?

Gweler cwestiwn 9 uchod.

Cwestiwn 13:

Ai'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau yw'r ffordd orau ymlaen? Beth yw'r manteision a'r anfanteision?

Y fantais fyddai fod system lled-gyffredin ar draws yr holl categorïau o ddarparwyr o fewn y sector PCET.

Fodd bynnag, mae gan UCAC bryderon sylweddol ynghylch y model hwn fel ffordd ymlaen.

Mae biwrocratiaeth ddiangen yn bryder gennym. Pryderwn, er enghraifft, yn achos dosbarthiadau chwech, er mai gyda'r Awdurdod Lleol y byddai'r Comisiwn yn dod i unrhyw Gytundeb, ac er mai'r Awdurdod Lleol fyddai'n darparu'r wybodaeth ofynnol, y byddai gofynion am wybodaeth a data yn anorfod yn glanio ar ddesg y Pennaeth (o bosib drwy law Cadeirydd y corff llywodraethu) ac yn ychwanegu at lwyth gwaith sydd eisoes yn gwbl afresymol. Byddai'n eironig petai hynny'n digwydd ar yr union adeg pan fo Llywodraeth Cymru yn dechrau gweithredu newidiadau wirioneddol gadarnhaol i gyflwyno systemau atebolrwydd mwy adeiladol, rhesymol a chymesur ar gyfer ysgolion.

Mae cwestiwn arall yn codi ynghylch pa mor realistig yw sicrhau system lled-gyffredin ar draws yr holl categorïau o ddarparwyr sydd mor amrywiol.

Mae teimlad fod yr eirfa a'r ymagwedd yn estron iawn i'r system ysgolion, ac yn awgrymu model y farchnad. Mae'n rhoi'r argraff o system hierarchaidd a llym, heb fod pwyslais ar gefnogaeth a datblygiad.

Nid oes digon o enghreifftio yn y ddogfen ymgynghorol ynghylch y mathau o elfennau y gellid eu cynnwys yn adran Deilliannau'r Cytundeb.

Cwestiwn 14:

Pa bwerau y gallai'r Comisiwn fod ei angen i sicrhau bod darparwyr dysgu ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau?

Mae'r categorïau o ddarparwyr a gwmpesir o fewn y sector PCET yn eithriadol o amrywiol o safbwynt eu statws cyfreithiol, ac rydym yn cymryd yn ganiataol na fyddai unrhyw newid yn hynny o beth yn sgil y cynigion hyn.

Rydym yn rhagdybio y byddai gallu'r Comisiwn (i) i osod gofynion/disgwyliadau/meini prawf yn y lle cyntaf a (ii) i ymyrryd yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau dan y Cytundeb, felly hefyd yn amrywiol.

Gwelwyd eisoes effaith y 'Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014' a'r dynodiadau NPISH (*Non-profit Institutions Serving Households*) o ran gwahau grym Llywodraeth Cymru dros y sector Addysg Bellach.

Tu hwnt i'r statws cyfreithiol, mi fydd ffactorau eraill y bydd angen eu cymryd i ystyriaeth. Er enghraifft, mae Addysg Uwch yn gweithredu mewn cyd-destun Teyrnas Gyfunol gyfan, nid Cymru yn unig; mae ffioedd myfyrwyr (nid ariannu cyhoeddus uniongyrchol) yn rhan bwysig iawn o'u hincwm. Enghraifft arall yw dosbarthiadau chwech, sy'n rhan o sefydliad ehangach sy'n darparu addysg statudol nad yw'n dod dan orchwyl y Comisiwn. Gall y ffactorau hyn oll ddylanwadu (a chyfyngu) ar natur pwerau'r Comisiwn, a'i 'leverage' dros y gwahanol gategorïau o ddarparwyr.

Cwestiwn 15:

A oes model arall y dylem ei ystyried? Os felly, beth yw'r model hwnnw a beth fyddai'r manteision?

Mae'r sector ysgolion yn gweithio ar hyn o bryd ar fodel o hunanarfarnu fel sail ar gyfer datblygiad. Mae Estyn yn gweithio ar y cyd â'r OECD i lunio model penodol ar gyfer y gwaith hwn, gan gynnwys sut i wirio/cymeradwyo hunan arfarniadau ysgolion. Mae adroddiad diweddar Yr Athro Graham Donaldson 'Arolygiaeth Dysgu' yn berthnasol iawn yn hyn o beth.

Mae'r model hwn yn un goleuedig, ac yn ein symud i ffwrdd o fodel o atebolrwydd a fu'n wrthgynhyrchiol ar sawl lefel. Awgryma UCAC y dylid rhoi sylw i'r math hwn o fodel wrth ystyried y berthynas rhwng y Comisiwn a'r darparwyr. Ni fyddwn, ar unrhyw gyfri, am weld dosbarthiadau chwech (nac unrhyw gategori arall o ddarparwyr) yn ddarostyngedig i ddwy system wahanol o safbwynt atebolrwydd am eu cyllid, a chynlluniau ar gyfer gwella. Ni fyddem 'chwaith am weld dosbarthiadau chwech yn dod dan gyfundrefn atebolrwydd sylweddol wahanol i weddill yr ysgol maint yn rhan ohonynt.

Cwestiwn 16:

Pa wybodaeth am ddarparwyr dysgu a chymunedau ymchwil ac arloesi sydd â Chytundebau Rheoleiddio a Deilliannau a gymeradwywyd y dylai'r Comisiwn ei rhyddhau i'r cyhoedd?

Gan nad yw'n glir eto beth fydd union fformat a chynnwys y Cytundebau, nid yw'n rhwydd ateb y cwestiwn. Fodd bynnag, mewn egwyddor, mae'n bosib na fyddai

problem gyda chyhoeddi'r Cytundebau; pe byddai angen elfen o atebolrwydd cyhoeddus, mi fyddai gwneud y dogfennau'n gyhoeddus yn gallu cyflawni hynny.

Yr un peth y byddai'n rhaid osgoi fyddai'r posibilrwydd o allu gosod darparwyr mewn unrhyw fath o gynghreiriau neu gategorïau. Hynny yw, nid yn unig bod y Comisiwn neu'r Llywodraeth yn ymatal rhag gwneud, ond bod fformat a chynnwys y Cytundebau yn anghydnaws ag unrhyw ymgais gan unrhyw un arall, e.e. y cyfryngau, i wneud hynny.

Mae peryglon 'sgil-ffeithiau anfwriadol negyddol' wedi'u dogfennu'n helaeth erbyn hyn yng nghyd-destun systemau atebolrwydd ysgolion. Pwyswn ar Lywodraeth Cymru i ddysgu'r gwersi hynny a'u cadw mewn cof wrth bennu cynnwys a fformat y Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, yn enwedig os mai'r bwriad yw eu bod yn gyhoeddus.

Cwestiwn 17:

Unwaith caiff ei chymeradwyo, a ddylai rhan reoleiddio'r Cytundeb fod yn barhaol, neu a ddylid ei hailystyried o bryd i'w gilydd? Os felly, pa mor aml y dylid ei hailystyried? Pa mor aml y dylid ail-negodi elfen ddeilliannau'r cytundeb?

Mae'r mathau o elfennau a gynigir eu cynnwys yn yr adran reoleiddiol yn bethau all newid yn weddol sydyn e.e. hyfywedd a chynladwyedd ariannol. Er nad ydym am greu trefn fiwrocraataidd a thrwm, nid yw'r elfennau a gynigir yn ymddangos fel materion ble fyddai'n synhwyrol eu cymeradwyo unwaith yn unig a pheidio ailymweld â nhw. Fodd bynnag, rhaid bod yn gymesur wrth benderfynu pa mor aml y dylid eu hailystyried, ac yn rhesymol o ran y gofynion tystiolaeth.

O ran elfen deilliannau'r Cytundeb, unwaith eto cyfeiriwn at adroddiad diweddar Yr Athro Graham Donaldson 'Arolygiaeth Dysgu'; mae'r cysyniad o 'ymreolaeth haeddiannol' yn berthnasol dros ben yn y cyd-destun hwn er mwyn sicrhau system gymesur a hylaw.

Yn ogystal, mae'r ateb i'r cwestiwn yn ddibynol i raddau ar amserlen cylchoedd cynllunio strategol y Comisiwn. Os yw'r blaenoriaethau strategol yn newid yn sylweddol yn sgil llunio Cynllun Strategol, wedyn mae'n naturiol y byddai angen ail-negodi elfen deilliannau'r Cytundeb gydag unrhyw ddarparwyr perthnasol.

Cwestiwn 18:

Rhowch eich barn am y materion a restrwyd yn adran 'Materion ychwanegol' y papur hwn.

Mae'r lefel o ansicrwydd ac aneglurder ynghylch y meysydd hyn yn awgrymu bod llawer fawr iawn o waith i'w wneud eto ar ddatblygu'r cynigion, ac yn wir, ar bennu'r weledigaeth fwy cyffredinol ar gyfer y drefn arfaethedig.

Deallwn yn llwyr yr awydd i ddod â dimensiwn mwy strategol i'r sector ôl-16, ac i sicrhau fwy o gysondeb o ran gweithdrefnau. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein darbwyllo fod y cynigion dan sylw, fel ag y maent ar hyn o bryd:

- (i) yn gywir o ran ymagwedd a thôn; maent yn rhy hierarchaidd, llym a bygythiol
- (ii) yn ffit daclus gyda'r gweithdrefnau rheoleiddio/sicrhau ansawdd sydd eisoes yn eu lle ar gyfer bob un o'r categorïau o ddarparwyr, o ran osgoi dyblygu a biwrocraatiaeth ddiangen, a/neu o ran pontio o'r system

bresennol i'r system newydd; heblaw am ddiddymu CCAUC, ni sonnir am beth fyddai'n digwydd i'r trefniadau presennol; mi fydd yn hollbwysig bod yn glir ynghylch pa ofynion a gweithdrefnau fydd yn cael eu diddymu, eu lleihau neu eu dargyfeirio wrth gyflwyno unrhyw ofynion newydd

Cryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio a chyllido

Cwestiwn 19:

A ydych chi'n cytuno y dylai swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adrannau 31, 32, 33, 34, 35 a 36 o'r Ddeddf Dysgu a Medrau ddod i ben, ac y dylai'r Comisiwn arfer y swyddogaethau hynny neu swyddogaethau tebyg iawn iddynt?

Nid oes wir digon o fanylder yn y ddogfen ymgynghorol ynghylch ar ba sail y byddai'r Comisiwn yn mynd ati i ddyrannu unrhyw gyllid fyddai'n dod drwy ei ddwylo.

Teimla UCAC, pa bynnag fodel a fabwysiedir, fod atebolrwydd democrataidd yn gwbl allweddol. Mae angen trafodaeth, tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n ymwneud â dyraniad arian cyhoeddus ar gyfer y sector ôl-orfodol.

Cwestiwn 20:

A ydych chi'n credu y dylai Gweinidogion Cymru gadw rôl yn y broses o gynllunio, darparu a chyllido addysg a hyfforddiant 16-19 ac ôl-19?

Gweler cwestiwn 19.

Cwestiwn 21:

A ydych chi'n cytuno y dylid creu'r un pwerau, fwy neu lai, ar gyfer y Comisiwn newydd â'r pwerau o dan adrannau 65 a 66 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ynghyd â'r pwerau yn adrannau 86 ac 87 o Ddeddf Addysg 2005?

Gweler cwestiwn 19.

Cwestiwn 22:

A ydych chi'n cytuno y dylid disodli adran 68 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 â phŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddyrannu cyllid i'r Comisiwn ar gyfer pob darpariaeth ôl-16? Oes yna elfennau penodol y dylid ystyried eu cynnwys neu beidio â'u cynnwys fel rhan o'r pŵer newydd hwn?

Gweler cwestiwn 19.

Cwestiwn 23:

A ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru neilltuo elfennau penodol o fewn cyfanswm y grant sydd ar gael i'r Comisiwn ar sail y math o ddarpariaeth i'w gyllido?

Os caiff y cyllid ei gyfeirio trwy'r Comisiwn, cytunwn mewn egwyddor y dylid neilltuo elfennau penodol o fewn cyfanswm y grant.

Cwestiwn 24:

A ydych chi'n cytuno y dylid rhannu'r symiau a neilltuir ar lefel addysg bellach/addysg uwch er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r Comisiwn, ond gan gydnabod ein bod yn cynnig y dylai cyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â chyllid addysg bellach gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn newydd? Nid oes cyfatebiaeth mewn perthynas ag addysg uwch.

Nid ydym yn sicr bod neilltuo ar lefel mor uchel yn briodol, a theimlwn y dylid ystyried neilltuo ymhellach o fewn yr hyn a elwir yma yn 'addysg bellach' ac sy'n cwmpasu dosbarthiadau chwech, sefydliadau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith ac addysg i oedolion.

Credwn y dylid sicrhau cyllid craidd i bob sefydliad, wedi'i ddiogelu – naill ai'n uniongyrchol gan Weinidogion Cymru, neu trwy law'r Comisiwn gyda symiau wedi'u neilltuo gan Weinidogion Cymru. Gallai'r Comisiwn fod â'r disgresiwn i ychwanegu at y symiau craidd ar gyfer materion o flaenoriaeth, pynciau prin neu gostus, cyfrwng Cymraeg ac ati.

Mae perygl i unrhyw newidiadau yn y trefniadau cyllido ddadsefydlogi darparwyr yn enwedig yn y cyfnod cynnar, oni bai bod diogelu digonol yn ei le. Byddai'n ddoeth bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a diwygiadau ehangach sy'n digwydd o fewn y sectorau dan sylw a sicrhau nad yw newidiadau i'r trefniadau cyllido yn ystod yr un cyfnod yn cynrychioli risg ormodol, o safbwynt llwyddiant y diwygiadau hynny nac o safbwynt sefydlogrwydd y darparwyr eu hunain.

Cwestiwn 25:

A ydych chi'n cytuno y dylai fod yna bŵer i Weinidogion Cymru gyllido darpariaeth AHO yn uniongyrchol (gan gynnwys addysg uwch), ar ôl rhannu unrhyw gynigion o'r fath i ddechrau â'r Comisiwn, a lle mae budd mawr i'r cyhoedd o wneud hynny?

Mae hynny'n ymddangos yn rhesymol.

Cwestiwn 26:

Rydym yn gwybod bod yna ffrydiau cyllid ychwanegol, ar wahân i gyllid craidd. Os ydych yn derbyn cyllid o'r fath, a ydych o'r farn mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am y cyllid rydych yn ei gael?

Cwestiwn 27:

A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn yr hyblygrwydd, yn ystod cyfnod trosglwyddo byr, i weithredu gwahanol fodolau cynllunio a chyllido ar draws pob math o ddarparwr ôl-16, gan hyrwyddo ar yr un pryd brosesau alinio a chydgrynhai wrth i'r Comisiwn aeddfedu?

Cytunwn mewn egwyddor.

Cwestiwn 28:

A ddylai fod yna drefniadau trosglwyddo i sicrhau bod cyllid craidd i unrhyw sefydliad yn cael ei ddiogelu i ddechrau? Beth fyddai'n gam diogelu rhesymol?

Cytunwn â'r egwyddor o ddiogelu cyllid craidd. Gweler cwestiwn 24 uchod.

Cwestiwn 29:

A ydych chi'n cytuno y dylai fod disgwyl i'r Comisiwn adolygu'n rheolaidd wybodaeth am yr ardoll brentisiaethau ac ystyried ffyrdd newydd o ddyrannu cyllid ar draws y system os nad ystyrir bod yr ardoll yn bodloni anghenion cyflogwyr yng Nghymru?

Cytuna UCAC yn gryf iawn â'r cynnig hwn. Mae'r ardoll brentisiaethau yn gweithio ar anfantais i system addysg Cymru a hynny am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae sefydliadau yng Nghymru fel petaent wedi bod yn hwyr iawn yn y dydd yn sylweddoli sut i fynd ati i fanteisio ar y cronfeydd a gesglir drwy'r ardoll; efallai nad yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddigon rhagweithiol yn cynghori busnesau a sefydliadau eraill ar sut i fanteisio'n llawn ar y cronfeydd hyn o ran creu prentisiaethau cymwys. Byddem yn gallu rhagweld - ac yn croesawu - rôl bwysig i'r Comisiwn yn y cyswllt hwn.

Yn ail, ac yn fwy gofidus, mae'r ardoll yn cael ei godi ar sefydliadau addysg eu hunain. Felly mae gennym sefyllfa ble mae ysgolion (mewn rhai Awdurdodau Lleol), gan eu bod yn dod dan fantell Awdurdod Lleol o ran bil cyflog yn gorfod cyfrannu tuag at gyfanswm ardoll yr Awdurdod Lleol, yn gyfatebol i'w cyfran o fil cyflog yr Awdurdod.

Mae UCAC wedi gwneud cais rhyddid gwybodaeth i bob Awdurdod Lleol ac mae gennym wybodaeth lawn ynghylch:

- y cyfanswm y disgwylir i'r Awdurdod Lleol dalu ar gyfer yr ardoll prentisiaethau yn y flwyddyn ariannol 2017 -2018
- y cyfanswm y disgwylir i ysgolion o fewn yr Awdurdod Lleol gyfrannu at yr ardoll prentisiaethau yn y flwyddyn ariannol 2017-18
- cyfanswm cyfraniad pob ysgol berthnasol unigol o fewn yr awdurdod lleol at yr ardoll prentisiaethau yn y flwyddyn ariannol 2017-18

Mae'n gyffredin dros ben i ysgolion uwchradd fod yn cyfrannu ffigyrau 5 ffigurwr, gyda'r uchaf rydym wedi'i weld ar gyfer un ysgol unigol yn £26,886 (ac mae ffigyrau o £20,000+ yn gyffredin iawn ar draws Cymru).

Golyga hyn fod symiau sylweddol iawn o arian cyhoeddus yn cael eu tynnu o'r system addysg orfodol, i fynd i gronfa a weinyddir yn Whitehall, i'w ddefnyddio i greu prentisiaethau yn y sector ôl-orfodol, a ble nad oes unrhyw warant y daw'r arian yn ôl i Gymru.

Mae wir angen corff yng Nghymru fydd yn gallu herio, cynghori a mynd i'r afael yn gyffredinol â'r materion hyn.

Cwestiwn 30:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn barhau i gydweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i lywio arlwy darparwyr dysgu?

Cwestiwn 31:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn allu dal yn ôl rhywfaint o'r gyllideb graidd ar gyfer pob sector, i'w ddyrannu ar sail yr argymhellion yn y cynlluniau sgiliau blynyddol?

Cwestiwn 32:

A ydych o'r farn bod y cynigion uchod ar gyfer monitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd ledled y system AHO yn ddigonol ac yn briodol?

Pryderwn ynghylch goblygiadau'r cynigion, a hynny o safbwynt sut maent yn cyd-fynd â threfniadau monitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd sydd eisoes yn eu lle, a/neu sut bwriedir pontio o'r systemau hynny i'r system arfaethedig.

Mae'r sector ysgolion wedi bod yn dioddef dan systemau monitro perfformiad ac atebolrwydd gwbl anaddas a gwrthgynhyrchiol ers rhai blynyddoedd bellach. Mae hynny ar newid, sydd i'w groesawu'n fawr iawn. Mae gennym ofid y byddai trosglwyddo i'r trefniadau newydd a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori (sy'n ymddangos yn gwbl wahanol eu natur a'u tôn, ac yn debycach i'r trefniadau anaddas presennol) yn golygu bod dosbarthiadau chwech yn benodol, naill ai'n gorfod ymgodymu â dwy gyfundrefn anghydnaws - gyda dwy set o ofynion gweinyddol gwahanol - neu'n gorfod trosglwyddo i gyfundrefn newydd llawer llai addas ac adeiladol na'r hyn sydd yn yr arfaeth ar gyfer y system ysgolion.

Cwestiwn 33:

Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod y system AHO yng Nghymru yn cael ei chynnal mewn ffordd gynaliadwy yn fwy hirdymor?

Diogelu buddiannau dysgwyr

Cwestiwn 34:

A ydych chi'n cytuno y dylai trefniadau diogelu dysgwyr fod yn gydnaws â chyfres gyffredin o egwyddorion, er mwyn sicrhau cysondeb i ddysgwyr ar draws y sector AHO?

Cytunwn.

Cwestiwn 35:

A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a awgrymwyd? A oes yna egwyddorion y dylid eu hepgor neu egwyddorion ychwanegol y dylid eu cynnwys?

Cytunwn.

Cwestiwn 36:

A ydych chi'n cytuno â'r hyn yr awgrymir ei gynnwys mewn Cynllun Diogelu a Chynnydd Dysgwyr? A oes yna unrhyw beth y dylid ei ychwanegu neu ei hepgor?

Cytunwn.

Cwestiwn 37:

Pa sancsiynau, os o gwbl, ddylai fod ar gael i'r Comisiwn mewn perthynas â Chynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr?

Mae'n anodd rhagweld pa fathau o sancsiynau fyddai'n bosib. Ond efallai y byddai ceisio deall yr anawsterau a/neu rwystrau, a chynnig cefnogaeth i gyflawni'r gwaith yn ffordd fwy adeiladol o fynd ati.

Cwestiwn 38:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r trefniadau presennol ar gyfer datrys cwynion barhau ar gyfer chweched dosbarth ysgolion?

Cytunwn, mae'r trefniadau ar lefel ysgol/Awdurdod/Ombwdsmon yn glir ac yn drylwyr. Gellid cyfeirio yn ogystal at Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, a fydd yn fuan yn trosi'n Dribiwnlys Addysg Cymru.

Cryfhau llais y dysgwr a'r gynrychiolaeth a roddir iddo

Cwestiwn 39:

A ydych yn cytuno y dylid datblygu egwyddorion a gwerthoedd cyson o ran llais a chynrychiolaeth i ddysgwyr, ac y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr dysgu weithredu yn unol â'r rhain?

Cytunwn.

Cwestiwn 40:

A ydych yn cytuno y dylai cynrychiolwyr dysgwyr fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu elfen ddeilliannau'r cytundebau rheoleiddio a deilliannau?

Dylai dysgwyr gael llais yn y broses, ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol eraill megis y gweithlu.

Cwestiwn 41:

A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer sicrhau llais a chynrychiolaeth i ddysgwyr? A ydych o'r farn y byddai hyn yn gweithio i bob darparwr dysgu?

Cytunwn mewn egwyddor.

Cwestiwn 42:

Os felly, a ydych o'r farn mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am sefydlu'r fframwaith cenedlaethol arfaethedig?

Cytunwn mewn egwyddor.

Cwestiwn 43:

A ddylai'r Comisiwn weithio gyda phob darparwr addysgol yng Nghymru i sicrhau bod digon o adnoddau a chefnogaeth i sefydlu cyrff a arweinir gan ddysgwyr i gynrychioli dysgwyr?

Dylai.

Sicrhau a gwella ansawdd

Cwestiwn 44:

A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion cyffredinol a gynigir ar gyfer y fframwaith ansawdd? A ddylid ychwanegu, ddileu neu newid rhywbeth?

Os mai symud ymlaen gyda threfniadau sicrhau a gwella ansawdd ar y cyd fydd y penderfyniad, yn sicr, bydd angen i'r Comisiwn ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys y gweithlu, wrth ddatblygu'r egwyddorion hyn ymhellach.

Mae'r rhan fwyaf o'r egwyddorion yn synhwyrol - pwyslais ar hunanarfarnu ac ar fudd dysgwyr, cefnogi dysgu proffesiynol, hyblygrwydd ar draws sectorau a dros amser, trylwyredd wedi'i gydbwyso â chymesuredd, hybu cydweithio ac ati.

Mae **pwynt (v)** o'r egwyddorion yn cwmpasu llawer o elfennau gwahanol, ac mi fyddai angen datblygu'r rhain ymhellach i weld a ydynt yn weithredadwy mewn cyd-destun sicrhau ansawdd yn hytrach na chyd-destun rheoleiddio. Er enghraifft, mae'n anodd iawn rhagweld ar hyn o bryd sut y gellid mesur 'deilliannau cynaliadwy ar gyfer dysgwyr, cyflogwyr, economi Cymru a'r gymdeithas' – heb sôn am roi unrhyw un o'r mesuriadau hynny yng nghyd-destun 'gwerth am arian' y sefydliad unigol.

Mae 'effeithiolrwydd cost' yn codi cwestiynau dyrys yn ogystal mewn cyd-destun addysgiadol ble mae deilliannau dysgwyr (os dyna'r prif ffocws) yn amrywiol a chymhleth ac yn ddibynnol ar gyd-destun ehangach, ac o bosib ar fewnbnw sawl sefydliad gwahanol.

Mae'r cynnig i roi rôl i gyflogwyr a chyrrff proffesiynol neu statudol perthnasol yn un a allai weithio mewn rhai sectorau (ond byddai angen gofal hyd yn oed wedyn; nid yw cyflogwyr wastad yn deall cyd-destun a gofynion byd addysg), ond mae'n anoddach ei weld yn gweithio mewn sectorau eraill ble nad yw'r cysylltiad gyda chyflogaeth mor uniongyrchol. Byddai UCAC yn rhybuddio bod angen gofal mawr yn y maes yma.

Nid yw ystyr **pwynt (x)** yn glir ei ystyr o gwbl. Mae angen ymhelaethu os am fod yn sail gadarn ar gyfer sicrhau ansawdd.

Mae **pwynt (xi)** yn ymddangos yn glir ac yn gryno, ond mae yma faterion dyrys iawn y byddai angen mynd i fanylder yn eu cylch. Rhaid bod yn gwbl glir beth yw ystyr 'ymyrraeth' yn y cyd-destun hwn; mae'n bosib y byddai 'cefnogaeth i'r darparwr dysgu' yn un elfen o'r hyn a ellid ei ddiffinio fel 'ymyrraeth'. Bydd angen dwys-ystyried a phennu fframwaith sy'n glir ei ddiwylliant, ei ethos, ei fwriad ac felly ei ddulliau gweithredu pan ddaw'n fater o 'wella ansawdd'. Mae gan adroddiad 'Arolygiaeth Dysgu' yr Athro Graham Donaldson bethau pwysig iawn i'w ddweud yn y cyd-destun hwn a fyddai'n trosglwyddo'n hwylus i'r sector ôl-orfodol.

Cwestiwn 45:

Ac eithrio chweched dosbarth ysgolion, a ddylai un corff gael ei ddynodi i gynnal asesiad ansawdd allanol o'r holl ddarpariaeth AHO? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb, ac esboniwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol yr ydych yn eu rhagweld.

Mae UCAC yn glir iawn o'r farn y dylai dosbarthiadau chwech fod yn ddarostyngedig i'r un trefniadau sicrhau a gwella ansawdd â gweddill a'r ysgolion y maent yn rhannau creiddiol ohonynt. Byddem yn gwbl gefnogol i ofyniad ble fyddai Estyn yn edrych yn benodol ar y chweched dosbarth yng nghyd-destun arolygiad o'r ysgolgyfan, ac yn gwneud sylwadau ac argymhellion penodol amdano sy'n alinio i'r graddau sy'n addas â'r fframwaith ar gyfer gweddill y sector ôl-orfodol.

Byddem yn gwrthwynebu'n chwyrn unrhyw symudiad tuag at arolygiad gan Estyn ar wahân i arolygiad gweddill yr ysgol, neu'n waeth byth, trefn sicrhau ansawdd gyfan gwbl ar wahân. Mae'n bwysig nodi yn y cyd-destun hwn, sylw'r Athro Graham

Donaldson yn ei adroddiad 'Arolygiaeth Dysgu': 'Dylai arolygu a disgwyliadau atebolrwydd eraill sicrhau y caiff adrannau chweched dosbarth eu hystyried yn rhan annatod o'r gymuned ysgol, ac nad ydynt yn destun disgwyliadau a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.'

Cefnogwn felly'r cynnig ym mharagraff 182.

Rhaid i ni fynegi barn yn y termau cryfaf i'r cynnig ym mharagraff 179. Deallwn yr awydd i osgoi rhagdybio o blaid unrhyw sefydliad sicrhau ansawdd penodol, fodd bynnag mae'r awgrym y byddai'r Comisiwn yn edrych tu hwnt i Gymru am gorff cymwys yn codi braw. Rhaid cofio bod angen dealltwriaeth fanwl o system addysg Cymru a'i holl amrywiol sectorau er mwyn sicrhau eu hansawdd; bydd angen y capasiti i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd, ac i ddeall natur sefydliadau a darpariaeth gyfrwng Cymraeg, a sefydliadau a darpariaeth ddwyieithog. Nid ydym yn ffyddiog o gwbl y byddai hynny oll yn realistig i'w ddisgwyl dan sefydliad o du hwnt i Gymru. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cydnabod mai Estyn sydd â'r cyfrifoldeb dros sicrhau ansawdd pob rhan o'r sector PCET ar hyn o bryd, heblaw am addysg uwch, sydd a'i threfniadau ei hunan. Byddai symud y cyfrifoldeb oddi wrth sefydliad sydd â'r fath profiad ac arbenigedd, i sefydliad amhrofiadol, ac o bosib gwbl newydd yn eithriadol o anghyfrifol, yn enwedig ar adeg pan fyddai cymaint o newidiadau eraill yn effeithio ar y sector. Byddai angen yn ogystal, ystyried y sgil-ffeithiau sefydliadol ar Estyn ei hun – sgil-ffeithiau fyddai'n bellgyrhaeddol yn nhyb UCAC.

Cwestiwn 46:

A ydych chi'n cytuno â'r diffiniad arfaethedig o wella ansawdd? Os na, beth fydddech yn ei newid?

Yn naturiol, bydd 'gwella ansawdd' yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ansawdd 'y dysgu a phrofiad y dysgwyr'.

Bydd angen cynllunio'n ofalus i sicrhau bod unrhyw ddiffiniad o 'wella ansawdd' yn glir ynghylch sut mae elfennau megis lles ('*wellbeing*') dysgwyr a staff, yn ogystal â systemau ehangach (e.e. gweinyddiaeth, rheolaeth, cyflogaeth) yn dylanwadu, nid yn unig ar 'y dysgu a phrofiad y dysgwyr' ond sut yr ymdrinnir â phawb sy'n gysylltiedig â'r sefydliad - yn ddysgwyr, teuluoedd/rhieni/gofalwyr, staff a'r gymuned ehangach.

Cwestiwn 47:

A ydych chi'n cytuno â chwmpas arfaethedig rôl y Comisiwn mewn perthynas â gwella ansawdd? Os na, beth fydddech yn ei newid?

Pe byddai'r Comisiwn yn derbyn rôl statudol mewn perthynas â gwella ansawdd, byddai angen bod yn glir iawn ynghylch cyfrifoldebau dros ddosbarthiadau chwech, a'r berthynas gyda'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn ogystal â'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol.

Cwestiwn 48:

Sut y gellid teilwra rôl y Comisiwn o ran datblygu'r gweithlu i adlewyrchu anghenion gwahanol sectorau a darparwyr?

Mae'n hollbwysig bod ymagwedd fwy strategol yn cael ei datblygu tuag at gynllunio pob rhan o'r gweithlu addysg; mae hyn wedi bod yn wendid hanesyddol. Gwelwn y potensial am rôl i'r Comisiwn yn y cyd-destun hwn.

Cefnogwn y syniad o rôl mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu, diffinio a chynghori ar lwybrau gyrfa a sicrhau mwy o gydraddoldeb a hygludedd rhwng sectorau.

Teimlwn fod angen mwy o ofal mewn perthynas â'r cynnig sy'n ymwneud ag 'addysgeg, dysgu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth' am fod yna gyrff yn weithredol yn y meysydd hynny eisoes, yn sicr yng nghyd-destun dosbarthiadau chwech.

Felly hefyd yr angen am ofal wrth ystyried y cynnig mewn perthynas â safonau addysgu proffesiynol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu safonau proffesiynol ar gyfer y sector AB (yn ogystal ag ar gyfer y sector ysgolion, gan gynnwys dosbarthiadau chwech – ar gyfer athrawon a staff cymorth dysgu).

Rhaid gofyn y cwestiwn ynghylch gwrthdaro buddiannau os yw'r Comisiwn yn cymryd rôl dros ormod o wahanol agweddau o'r sector - o gynllunio ac ariannu, i reoleiddio, sicrhau a gwella ansawdd, cynllunio a datblygu'r gweithlu, sefydlu fframwaith ar gyfer addysgeg a dysgu proffesiynol - a pherchnogi safonau proffesiynol. Petai'r Comisiwn yn cymryd cyfrifoldeb dros bob un o'r rhain, bron y byddai'n anodd iddo weithredu ym maes sicrhau ansawdd am y byddai angen iddo fod yn feirniadol o'i hun.

Chweched dosbarth

Cwestiwn 49:

A ddylai fod gan y Comisiwn unrhyw bwerau eraill i ysgogi addasiad a reoleiddir o ran chweched dosbarth, ee cau lleoliad penodol, neu a fyddai negodi Rhan II o'r cytundebau rheoleiddio a deilliannau yn ffordd well o gyflawni hyn?

Anghytunwn yn gryf iawn â'r cynnig i drosglwyddo'r pŵer i agor neu gau dosbarthiadau chwech yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 oddi wrth Weinidogion Cymru i'r Comisiwn.

Hyd y gwelwn ni, ni ragwelir y bydd gan y Comisiwn y pŵer i agor, cau nac addasu unrhyw sefydliad neu ddarparwr arall dan y cynigion hyn, a theimlwn yn gryf na fyddai hynny'n briodol yng nghyd-destun dosbarthiadau chwech. Gallem dderbyn dadl dros roi llais i'r Comisiwn yn y broses ymgynghori (ochr yn ochr â rhanddeiliaid eraill), ond dim pŵer cryfach na hynny.

Rhesymau pellach dros y gwrthwynebiad hwn yw bod dosbarthiadau chwech yn rhannau annatod o sefydliadau ehangach - ysgolion - sy'n darparu addysg orfodol nad ydynt yn dod dan gwmpas y Comisiwn. Nid oes modd ystyried manteision ac anfanteision agor, cau neu addasu dosbarth chwech heb gymryd i ystyriaeth unrhyw sgil-efeithiau ar weddill y sefydliad dan sylw; byddai'r math hynny o ystyriaeth tu hwnt i gwmpas ac arbenigedd y Comisiwn.

Cwestiwn 50:

Pa systemau adrodd ddylai fod yn ofynnol gan yr awdurdod lleol er mwyn dangos ei fod yn defnyddio'r cyllid a roddir ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth yn effeithiol?

Petai dosbarthiadau chwech yn dod dan gwmpas y Comisiwn, dylai gofynion adrodd ar gyfer Awdurdodau Lleol fod yn gyfatebol i ofynion adrodd y categorïau eraill o ddarparwyr. Mae'r awgrym ym mharagraff 220 y byddai disgwyl i Awdurdodau Lleol 'adrodd *bob blwyddyn* i'r Comisiwn ar y defnydd o'r cyllid a gedwir a'r dyraniad i'w hysgolion...a'i effaith ar safonau ac ansawdd eu chweched dosbarth' yn teimlo'n gwbl anghymesur o gymharu â gofynion adrodd y sectorau/darparwyr eraill.

Os eir lawr y llwybr o Gytundebau Rheoleiddio a Deilliannau, dylai'r fframwaith hynny fod yn ddigonol, heb ofynion ychwanegol.

Fodd bynnag, mae'n anodd peidio dod i'r casgliad o ddarllen y cynigion mewn perthynas â dosbarthiadau chwech, mai ychwanegu haenau ychwanegol o adrodd, darparu dogfennaeth ac atebolrwydd fyddai'r canlyniad – hyd yn oed o fewn y drefn Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau.

Mae gan Awdurdodau Lleol eisoes gyfrifoldebau rheoleiddiol (fel y'u disgrifir yn y ddogfen ymgynghorol, ac fel y nodir ym mharagraff 208) dros ysgolion, gan gynnwys dosbarthiadau chwech. Ni fyddai hynny'n newid dan y cynigion.

Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldebau yn ogystal yn y maes a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghorol fel 'deilliannau'; mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u dirprwyo'n gynyddol i'r consortia rhanbarthol, gydag Estyn yn cadw gorolwg ac yn sicrhau ansawdd. Mae atebolrwydd am hyn oll yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru – yn ogystal ag atebolrwydd democrataidd i etholwyr lleol. Hyd y deallwn ni, nid yw'r cynigion yn bwriadu newid y strwythurau hynny 'chwaith.

Mi fyddai creu Cytundebau Rheoleiddio a Deilliannau rhwng Awdurdodau Lleol a'r Comisiwn, yn y bôn, yn gofyn i Awdurdodau Lleol atgynhyrchu eu canfyddiadau rheoleiddiol a'u gweithgarwch mewn perthynas â 'deilliannau' (via'r consortiwm rhanbarthol perthnasol) ar gyfer y Comisiwn, gan greu haenen ychwanegol o fiwrocratiaeth ac atebolrwydd dryslyd a diangen. Mi fyddai unrhyw atebolrwydd democrataidd yn mynd yn niwlog y tu hwnt. Mae'r awgrym ym mharagraff 203 y byddai'r Comisiwn 'yn ymgynghori ag awdurdodau lleol...ac yn datblygu perthynas gyda'r consortia addysg rhanbarthol er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau i ddysgwyr chweched dosbarth' yn codi ofn a braw o ran ychwanegu haenau o ymyrraeth a drysu llinellau atebolrwydd.

Cwestiwn 51:

A yw rôl y Comisiwn pan ddyfernir bod chweched dosbarth yn destun pryder yn briodol, neu a ddylai fod yn wahanol mewn rhyw ffordd?

Mae cwestiynau mawr yn codi dan y pennawd hwn.

Mae paragraff 222 yn cynnig y dylid 'rhoi gwybodaeth reolaidd i'r Comisiwn am unrhyw ymyriad [gan yr awdurdod lleol a/neu Weinidogion Cymru]' os dyfernir bod angen gwella ysgol gan gynnwys ei chweched dosbarth, a bod y Comisiwn yn gallu 'argymhell camau gweithredu i'r awdurdod lleol neu i Weinidogion Cymru, yn dibynnu pa un sy'n ymyrryd.' Nid oes gennym wrthwynebiad mewn egwyddor i hynny, ond mae angen gofyn cwestiwn ynghylch statws unrhyw argymhelliad sy'n dod gan y

Comisiwn – pan fo Awdurdod Lleol, consortiwm rhanbarthol, Estyn, ac o bosib Gweinidogion Cymru eisoes yn cymryd cyfrifoldeb ac yn gweithredu. Unwaith eto, mae perygl gwirioneddol o gorgymhlethu a drysu'r llinellau atebolrwydd.

Mae paragraffau 207 a 210 yn rhoi argraff dra wahanol wrth gyfeirio at bŵer i'r Comisiwn monitro, gorfodi ('*enforce*') a chosbi ('*apply penalties*') pan fernir bod darparwr neu awdurdod lleol yn torri'r cytundeb neu 'mewn achos o fethiant'. Ni fanylir ar natur yr orfodaeth na'r cosbi, ond mae'n glir fod y pŵer yn un llawer cryfach na gwneud argymhelliad yn unig.

Mae'r cwestiwn yn codi yn y cyd-destun hwn, gan y cynigir i'r Cytundeb fod rhwng y Comisiwn a'r Awdurdod Lleol yn hytrach na gyda'r darparwyr unigol (ac rydym yn cytuno mewn egwyddor mai dyna fyddai'r fwyaf priodol o'r ddwy opsiwn, os oes Cytundeb o gwbl), pa gamau 'gorfodi' neu 'gosbau' fyddai'n briodol o safbwynt yr Awdurdod Lleol petai un yn unig o'i darparwyr yn methu cwrdd â'r gofynion?

I gymryd un cam yn ôl, a fyddai'r Cytundeb yn cyfeirio'n unigol at bob darparwr dan gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol, neu a fyddai'r Cytundeb yn ddogfen lefel-uwch ynghylch strategaeth ôl-16 yn fwy cyffredinol? Nid yw hynny'n glir yn y ddogfen.

Mae cwestiynau eraill yn deillio o hynny. Mae paragraff 210 yn mynd ymlaen i gyfeirio at sefyllfa ble na fyddai'r Comisiwn 'yn gwbl fodlon ynghylch cynnwys y cytundeb rheoleiddio a deilliannau' ac yn cynnig rhoi pwerau i ddal/hawlio cyllideb yn ôl. Mi fyddai hynny'n debygol o gael effaith uniongyrchol ar y dosbarthiadau chwech dan sylw, a'r ysgolion yn ehangach, er bod yr anfodlonrwydd ar lefel yr Awdurdod Lleol ac nid ar lefel y darparwyr unigol.

Cwestiwn 52:

A ddylai fod gan y Comisiwn unrhyw bwerau eraill o ran darpariaeth chweched dosbarth?

Gellir deall yr awydd i gynnwys dosbarthiadau 6 yn y cynlluniau ar gyfer y Comisiwn, er mwyn sicrhau ymagwedd fwy strategol a chydlynus at y sector ôl-16 yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, mewn cymaint o adrannau o'r dogfen ymgynghorol ac mewn perthynas â chymaint o'r cynigion mae angen gwneud eithriad ar gyfer dosbarthiadau chwech, naill ai am eu bod yn rhan o ysgol ehangach ac felly nad oes modd, neu nad yw'n ddoeth newid y trefniadau presennol er mwyn osgoi creu anghysondeb o fewn y sefydliad unigol, neu oherwydd bod gweithdrefnau cadarn eisoes yn eu lle, gyda lefel uchel o atebolrwydd.

Wrth ddarllen y ddogfen, mae'r cwestiwn yn codi ynghylch gwir fudd (a budd pwy) cynnwys dosbarthiadau chwech yn y cynigion. Y rhesymau a gynigir yn y ddogfen yw:

- niferoedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn: fodd bynnag, nid oedd nifer a chyfraddau'r ymatebion yn gynrychioliadol o'r sectorau (paragraff 199: 'Dylid nodi bod nifer yr ymatebion o'r sector ysgolion yn gymharol isel')
- paragraff 202 'Yr unig reswm dros wneud newid i'r trefniadau presennol fyddai gwella cyfleoedd a deilliannau addysgol ar gyfer dysgwyr a/neu ansawdd y ddarpariaeth': nid yw'r ddogfen yn esbonio'n glir sut byddai'r cynigion yn arwain at y canlyniadau hyn

- paragraff 203 'Y rheswm dros gynnig gwneud darpariaeth chweched dosbarth yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn yw, er bod cydweithredu da yn bodoli mae yna hefyd aneffeithlonrwydd a chystadleuaeth. Byddai gwneud darpariaeth chweched dosbarth yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn yn gyfle i edrych yn strategol ar addysg drydyddol, gan hyrwyddo cydweithredu rhwng darparwyr ar draws y grŵp oedran 14-19 a lleihau dyblygu gwaith diangen.': gallwn gydymdeimlo â'r cymhellion hyn, fodd bynnag, mae cydweithredu da wedi bod yn y gorffennol (e.e. yn sgil Llwybrau Dysgu 14-19, a'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009; yn syml iawn, daeth y rhan fwyaf o'r cydweithredu i ben pan ddaeth y cyllid i ben am fod 'na ormod o rwystrau (e.e. costau teithio) nad oedd modd eu goresgyn heb gyllid digonol.

Mae yna feysydd ble fyddai croeso mawr i orolwg strategol dros ddarpariaeth yn yr un categori oedran, ar yr amod mai bwriad y gorolwg hwnnw fyddai creu cydraddoldeb rhwng sectorau, e.e.

- datrysiadau (a buddsoddiad) mewn technoleg briodol er mwyn hwyluso cydweithio a lleihau dyblygu a/neu ddsbarthiadau bychain
- edrych ar yr anghysonderau rhwng trefniadau cludiant ôl-16; mae anghysondeb difrifol rhwng Awdurdodau Lleol ar gyfer cludiant i ddsbarthiadau chwech (gyda nifer yn ymgynghori ar hyn o bryd i ddileu unrhyw sybsidi o gwbl); mae'r anghysondeb hynny'n tyfu eto wrth gymharu â cholegau addysg bellach - y deallwn sy'n derbyn arian o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru i dalu am gludiant, sydd yn eu tro yn denu dysgwyr oddi wrth ddsbarthiadau chwech i golegau cyfagos; mae angen sicrhau cludiant rhad (neu am ddim) i ddysgwyr ôl-16, ond ar sail gydradd ym mha bynnag sector y maent yn dewis astudio

Mae'n deg dweud bod pryder sylweddol iawn yn y sector, er gwaethaf addewidion Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r ddogfen ymgynghorol, bod bygythiad yma i ddsbarthiadau chwech – un anuniongyrchol os nad un uniongyrchol. Mae symudiad amlwg iawn wedi bod dros y blynnyddoedd diwethaf tuag at addysg drydyddol, gyda sawl Awdurdod Lleol erbyn hyn wedi trosglwyddo'n llwyr i system drydyddol, gan adael ddsbarthiadau chwech dim ond mewn ysgolion crefyddol eu natur ac ysgolion cyfrwng Cymraeg am nad yw colegau'n gallu darparu ar gyfer eu hanghenion. Mae'n bwysig nodi nad oes bygythiad dirfodol ('*existential*') i unrhyw un o'r sectorau eraill; maent i gyd yn sectorau sylweddol a chryf; mae gorgyffwrdd rhyngddynt mewn manau (cynyddol) ond nid yw hynny'n cynrychioli bygythiad i'r naill na'r llall. Mewn gwrthgyferbyniad, mae ddsbarthiadau chwech mewn ysgolion yn teimlo'n fregus; maent yn eithriadau mewn cymaint o ffyrdd yng nghyd-destun y sector ôl-orfodol ehangach (fel y dengys y ddogfen ymgynghorol), ac mae'r gorgyffwrdd gyda darpariaeth sefydliadau addysg bellach fel petai'n eu gwneud yn fwy bregus byth, nid yn llai felly, yn sgil maint a nerth y sector AB, a'r arbedion maint y gall y sefydliadau AB eu cynnig. Am fod yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud yn benodol â'r sector ôl-16, mae perygl peidio â chymryd i ystyriaeth y manteision i ysgolion o gael ddsbarth chwech, nac ychwaith y manteision i ddisgyblion ddsbarth chwech o fod yn rhan o ysgol ehangach.

Mae'n rhaid cydnabod yn ogystal rôl gwbl ganolog – ac unigryw - ddsbarthiadau chwech wrth gynnig addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg a hynny o fewn awyrgylch ac ethos Cymraeg sy'n creu siaradwyr rhugl a hyderus. Mae'r ffaith honno yn ei hun yn

golygu y dylid sicrhau rhyw lefel o amddiffynfa i ddisbarthiadau chwech, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Ffactor arall y mae'n bwysig cymryd i ystyriaeth yw lefel y diwygio sy'n digwydd i ysgolion ar hyn o bryd a dros y blynyddoedd i ddod, yn sgil cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Byddai symud ymlaen â newidiadau o'r fath a amlinellir yn y ddogfen ymgynghorol mewn perthynas â dosbarthiadau chwech yn gosod baich a chymhlethdod ychwanegol ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion uwchradd yn ystod y cyfnod fwyaf heriol o ran diwygio a welwyd ers degawdau.

Cefnogi a datblygu prentisiaethau yng Nghymru

Cwestiwn 53:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn chwarae rôl ganolog o ran datblygu Prentisiaethau yng Nghymru? Yn benodol, a ddylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i gyhoeddi Llwybrau Prentisiaeth yn ogystal â Thystysgrifau Prentisiaeth?

Cwestiwn 54:

Pa elfennau o'r system brentisiaethau bresennol sy'n gweithio'n dda ac y dylid eu cadw, a lle y gellir ei gwella drwy gael gwared ar gymhlethdod a gofynion statudol beichus?

Cwestiwn 55:

A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau â'r trefniant bod Gweinidogion Cymru'n pennu'r gofynion lefel uchel ar gyfer gweithredu'r system brentisiaethau yn y modd a gynigir ar hyn o bryd drwy Fanyleb Brentisiaethau Cymru?

Cwestiwn 56:

A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau, neu a oes gennych unrhyw sylwadau am y system brentisiaethau ddiwygiedig rydym wedi ei chynnig?

Ymchwil ac arloesi

Cwestiwn 57:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig cyffredinol a strwythur manwl Ymchwil ac Arloesi Cymru o fewn y Comisiwn? Eglurwch pam.

Cwestiwn 58:

A ydych chi'n cytuno y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru gael cwmpas mor eang o ran cyllid er mwyn gallu cyllido'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd, hyd yn oed os yw ei gwmpas yn fwy cyfyng yn ei weithrediad terfynol, h.y. a ddylai gael hyblygrwydd o'r fath? Eglurwch pam.

Cwestiwn 59:

A ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, y Comisiwn ac Ymchwil ac Arloesi Cymru, a'r berthynas â'r rheini sy'n derbyn cyllid a'r gymuned ymchwil ac arloesi? Eglurwch pam.

Sicrwydd ariannol a llywodraethiant

Cwestiwn 60:

A ydych chi'n cytuno y dylid rhoi pwerau statudol penodol i'r Comisiwn newydd mewn perthynas â sicrhau rheolaeth ariannol, cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethiant darparwyr AHO?

Gallwn gytuno mewn egwyddor. Byddai angen sicrwydd mewn perthynas â dosbarthiadau chwech bod y trefniadau yn cymryd i ystyriaeth materion sefydliad-gyfan, ac nid y chweched dosbarth ar ei ben ei hun. Yn ogystal, mi fyddai angen dealltwriaeth gliriach a manylach ynghylch y pwerau ymyrraeth.

Cwestiwn 61:

A ydych chi'n cytuno y dylai pob darparwr AHO fod yn ddarostyngedig i egwyddorion tebyg o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant? A ddylai'r Comisiwn allu cymhwyso trefniadau a gofynion gwahanol ar gyfer gwahanol fathau neu gategoriâu o ddarparwyr AHO?

Cytunwn, mewn egwyddor.

Cwestiwn 62:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i alluogi'r Comisiwn arfaethedig i gyhoeddi cyfres ffurfiol o ofynion ac amodau yn ogystal â darparu canllawiau i ddarparwyr a chynghor ar arfer da?

Cwestiwn 63:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid darparu swyddogaethau galluogi i'r Comisiwn, ac y dylai'r ddeddfwriaeth bennu fframwaith fras ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant a rhoi disgrisiwn i'r Comisiwn ddatblygu ei ofynion o fewn y fframwaith hwn?

Cwestiwn 64:

Ydych chi'n cytuno:

- **y dylid rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i ymgynghori â darparwyr AHO ac unrhyw bersonau eraill y mae eu hystyried yn briodol wrth ddatblygu ei drefniadau ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant?**

Cytunwn.

- **y dylai Gweinidogion Cymru allu darparu canllawiau i'r Comisiwn ar ei drefniadau ar gyfer sicrwydd ansawdd a llywodraethiant ac y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn dalu sylw i'r canllawiau hyn?**

Cytunwn.

- **y byddai'r gofynion uchod yn ddigonol i sicrhau nad yw trefniadau'r Comisiwn ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethiant yn mynd y tu hwnt i'r cwmpas bwriedig? A oes angen unrhyw fesurau diogelu eraill?**

Cwestiwn 65:

A oes gennych unrhyw sylwadau neu bryderon ynghylch y cynnig bod y Comisiwn yn gofyn am wybodaeth gan ddarparwyr AHO, yn cynnal

adolygiadau sicrwydd rheolaidd, ac yn mynd i mewn i eiddo ac edrych ar ddogfennau neu ddeunyddiau, er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o ran sicrwydd ariannol a llywodraethiant?

Cytunwn mewn egwyddor er bod angen gochel rhag cyfundrefn sy'n creu biwrocratiaeth ddiangen. Bydd angen cynllunio'n ofalus i sicrhau'r cydbwysedd cywir.

Cwestiwn 66:

A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn amrywiaeth o bwerau ymyrryd er mwyn ymdrin â methiant i gydymffurfio â gofynion sicrwydd ariannol a llywodraethiant?

Ymddengys yn synhwyrol.

Cwestiwn 67:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Gweinidogion Cymru gadw eu pwerau ymyrryd o dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ac y dylid galluogi'r Comisiwn i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch arfer y pwerau hynny?

Cytunwn mewn egwyddor.

Cwestiwn 68:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo rôl Prif Reoleiddiwr Elusennau ar gyfer sefydliadau addysg bellach i'r Comisiwn arfaethedig? Beth yw eich barn ynglŷn â'r cynnig i gadw'r gofyniad presennol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gofrestru â'r Comisiwn Elusennau?

Llywodraethiant Addysg Uwch

Cwestiwn 69:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Cyfrin Gyngor barhau i oruchwylio a chymeradwyo'r diwygiadau hynny i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch y bernir eu bod o bwys i'r cyhoedd?

Cwestiwn 70:

A ydych chi'n ystyried bod y cynnig i ymestyn dull aiddosbarthu 2006 yn briodol ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch? Os na, pam?

Cwestiwn 71:

A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofynion statudol presennol sy'n gymwys i ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch er mwyn gallu ymestyn y dull gweithredu arfaethedig i bob sefydliad addysg uwch?

Cwestiwn 72:

A ydych chi'n cytuno â rôl arfaethedig y Comisiwn mewn perthynas ag ystyried diwygiadau i ddogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch?

Cwestiwn 73:

Er mwyn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig, a ydych chi'n cytuno â'r canlynol:

- a) dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar y weithdrefn ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu?
- b) dylai'r Comisiwn adolygu rhestr 2006 o faterion budd y cyhoedd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chyhoeddi canllawiau ynghylch y materion hynny y bydd y Cyfrin Gyngor yn parhau i'w goruchwyllo a'u cymeradwyo?
- c) dylid galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau i'r Comisiwn o ran y materion budd y cyhoedd y dylid parhau i graffu arnynt a'u goruchwyllo

Cwestiwn 74:

A ydych chi'n credu y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn diogelu budd y cyhoedd yn nhrefniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru?

Cwestiwn 75:

Byddem yn croesawu sylwadau ynghylch a ddylai'r trefniant hwn barhau i weithredu yn y dyfodol fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn a'r gorfforaeth addysg uwch dan sylw, neu a ddylid gwneud darpariaeth mai ar argymhelliad y Comisiwn yn unig y gellir arfer y pwerau hyn.

Cwestiwn 76:

Pa opsiwn yw'r mwyaf priodol yn eich barn chi, a pham? A oes unrhyw opsiynau eraill y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 77:

O dan ba amodau neu amgylchiadau ydych chi'n ystyried ei bod yn briodol arfer pwerau diddymu?

Cwestiwn 78:

A ddylai pwerau diddymu fod yn arferadwy ar argymhelliad y Comisiwn yn unig? Os felly, a ddylid ymestyn hyn i'r trefniadau presennol ar gyfer sefydliadau addysg bellach?

Cwestiwn 79:

A ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig, hynny yw na ddylid gwneud newidiadau sylweddol i'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru ar hyn o bryd?

Cwestiwn 80:

A ydych chi'n cytuno â rôl arfaethedig y Comisiwn mewn perthynas ag ystyried ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru?

Cwestiwn 81:

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn ystyried effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer darparu addysg uwch mewn addysg bellach fel rhan o'i gylch gwaith strategol ehangach ar gyfer darpariaeth AHO?

Cytunwn.

Cefnogi'r Gymraeg

Cwestiwn 82:

A ydych chi'n cytuno y dylid gosod dyletswydd benodol ar y Comisiwn i roi sylw dyledus i'r Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau?

Cytunwn yn llwyr.

Cwestiwn 83:

Wrth roi sylw dyledus i'r Gymraeg, a ydych chi'n cytuno y dylid disgwyl i'r Comisiwn ystyried materion fel a ganlyn:

- **gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;**
- **digonolrwydd y ddarpariaeth addysgol Gymraeg bresennol;**
- **sut y gall gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol;**
- **sut y gellir datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol;**
- **hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sector AHO?**

Cytunwn yn llwyr.

Cwestiwn 84:

Beth yw eich barn ynghylch y berthynas rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Comisiwn yn y dyfodol? Byddwch cystal â chynnwys sylwadau ar y berthynas o ran cyllido'r Coleg a'i weithgareddau gweithredol yn ogystal ag atebolrwydd y Coleg i'r Comisiwn.

Mi fydd y berthynas rhwng y Comisiwn a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) yn un o'r pwys mwyaf o safbwynt datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-orfodol, ac yn arbennig felly yn y meysydd Addysg Bellach, Addysg Uwch a Dysgu Seiliedig ar Waith.

Bydd y trefniadau cyllido ac atebolrwydd yn cael cryn ddylanwad ar natur y berthynas, ac ar sgôp y CCC i weithredu.

Mae rhai egwyddorion yr awgrymwn sy'n ganolog i unrhyw ystyriaeth o'r mater hwn. Mae angen i'r CCC gael:

- sicrwydd ariannol dros y tymor hir gan fod cyfrifoldebau trwm arno o safbwynt gwireddu amcanion polisi a thargedau Cymraeg 2050
- rhyddid sefydliadol i weithredu o fewn ei gylch gorchwyl, heb orfod cystadlu â blaenoriaethau polisi ehangach
- llinellau atebolrwydd clir i'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn ogystal ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn sgil y cyfrifoldebau mewn perthynas â Chymraeg 2050
- sefydlogrwydd o safbwynt cyllido ac atebolrwydd gan y bu eisoes drwy wahanol drefniadau

Un mater arall y bydd angen rhoi ystyriaeth iddo, yw'r tebygolrwydd o weld sefydlu Comisiwn y Gymraeg. Er nad yw'r amserlen na'r union fodel ar gyfer y Comisiwn

hwn yn eglur eto, gellid rhagweld y posibilrwydd (a'r manteision) o berthynas rhwng Comisiwn y Gymraeg a'r CCC.

Cwestiwn 85:

Beth yw eich barn ynghylch y berthynas rhwng y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Comisiwn yn y dyfodol? Byddwch cystal â chynnwys sylwadau ar y berthynas o ran cyllid a gweithgarwch gweithredol y Ganolfan Genedlaethol a'i hatebolrwydd i'r Comisiwn.

Yn debyg iawn i achos y CCC, mi fydd y trefniadau cyllido ac atebolrwydd yn ddylanwadol iawn ar natur y berthynas rhwng y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Comisiwn, ac yn effeithio ar gyd-destun gweithredu'r Ganolfan.

Mae rhai o'r un egwyddorion yn berthnasol yma. Mae angen i'r Ganolfan gael:

- sicrwydd ariannol dros y tymor hir gan fod cyfrifoldebau trwm arni o safbwynt gwireddu amcanion polisi a thargedau Cymraeg 2050
- rhyddid sefydliadol i weithredu o fewn ei chylch gorchwyl, heb orfod cystadlu â blaenoriaethau polisi ehangach
- llinellau atebolrwydd clir i'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn ogystal ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn sgil y cyfrifoldebau mewn perthynas â Cymraeg 2050
- sefydlogrwydd o safbwynt cyllido ac atebolrwydd gan ei bod yn sefydliad cymharol newydd sy'n dal i sefydlu ei hun a negodi ei pherthynas ag amryw o bartneriaid allanol

Yn yr un modd â gyda'r CCC, bydd angen ystyried natur y berthynas rhwng y Ganolfan â Chomisiwn arfaethedig y Gymraeg. Unwaith eto, gellid rhagweld y posibilrwydd a'r manteision o berthynas rhyngddynt.

Data, ystadegau ac ymchwil

Cwestiwn 86:

Beth yw eich barn ynghylch rhoi perchenogaeth o'r setiau data sydd ym meddiant Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill ar hyn o bryd i'r corff newydd?

Cwestiwn 87:

A ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar ysgolion uwchradd a darparwyr dysgu eraill a chyrrff arholi i rannu data ynghylch nodweddion a chyraeddiadau dysgwr â darparwr dysgu newydd y mae'r dysgwr yn cofrestru ag ef?

Gallwn gyd-fynd â rhannu data ynghylch cyraeddiadau, ond nid ydym mor sicr ynghylch rhannu data ynghylch nodweddion. Mae'r data ynghylch cyraeddiadau'n anhepgor ar gyfer creu dilyniant llyfn rhwng y naill ddarparwr a'r llall, ac adnabod llwybrau dilyniant addas.

Mae nodweddion personol, fodd bynnag, yn fater personol, ac mae gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhoi'n wirfoddol gan yr unigolyn. Mae'n bosib y byddai rhai o'r nodweddion hynny wedi newid rhwng eu rhoi i un darparwr a'r pwynt pan mae'r dysgwr yn symud at ddarparwr newydd. Rydym o'r farn y dylai'r darparwr newydd

ofyn o'r newydd i'r dysgwyr ynghylch eu nodweddion personol, a hynny ar sail gwbl wirfoddol.

Cwestiwn 88:

A oes unrhyw bwerau, dyletswyddau neu faterion eraill y dylid eu hystyried wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y swyddogaethau hyn i'r corff newydd?

Materion yn ymwneud â chyllid myfyrwyr

Cwestiwn 89:

A allai cynyddu nifer y graddau carlam ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru yn well?

Cwestiwn 90:

A yw'r trefniadau deddfwriaethol presennol, yn enwedig y diffyg terfyn ffioedd ar gyfer cyrsiau carlam, yn cyfyngu ar y gwaith o ddatblygu a chyflwyno graddau carlam yng Nghymru?

Cwestiwn 91:

Sut y gellid diffinio graddau carlam?

Cwestiwn 92:

Beth yw eich barn chi am y costau posibl sydd ynghlwm â chyflwyno graddau carlam dwy flynedd? Yn benodol, beth yw'r goblygiadau posibl ar gyfer ffioedd dysgu sy'n daladwy am gyrsiau o'r fath ac ar gyfer cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr cymwys?

Cwestiwn 93:

Yn eich barn chi, a oes angen ystyried unrhyw faterion eraill yn ymwneud â graddau carlam?

Cwestiwn 94:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai'r Comisiwn reoleiddio'r holl ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru sy'n ceisio cael eu cyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

Cwestiwn 95:

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid parhau i ddarparu dau gategori ar gyfer dynodi cyrsiau darparwyr addysg uwch yng Nghymru at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

Cwestiwn 96:

Pa un o'r tri opsiwn yw'r mwyaf priodol yn eich barn chi a pham? A ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch y tu allan i Gymru fodloni un o'r tri opsiwn hefyd?

Cwestiwn 97:

A oes unrhyw faterion eraill yr ydych yn credu y dylid eu hystyried mewn perthynas â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

Cwestiwn 98:

I lywio ein hasesiad o effaith bosibl y cynigion hyn, a ydych yn rhagweld unrhyw effaith benodol ar y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig (o fewn diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010)?

Pa effeithiau ydych chi'n credu y byddai ar yr unigolion hynny? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 99:

Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

- i) cael effeithiau positif neu gael effeithiau positif ychwanegol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- ii) peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bydd angen sicrhau bod gan y Comisiwn ei hun bolisiau ieithyddol cadarn ar gyfer pennu ei ddefnydd ei hun o'r Gymraeg, gan gynnwys mewn polisiau recriwtio ei staff ei hun ac unrhyw waith mae'n comisiynu gan eraill. Os bydd y gyfundrefn Safonau yn dal i fod mewn bodolaeth, ac yn dal i fod yn cael ei ymestyn i sefydliadau newydd, mi fyddai hynny'n ffordd hwylus o sicrhau'r lefel briodol o ymrwymiad.

O ran darparwyr, a sectorau, mae'n rhaid cydnabod rôl gwbl ganolog – ac unigryw - dosbarthiadau chwech wrth gynnig addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg a hynny o fewn awyrgylch ac ethos Cymraeg sy'n creu siaradwyr rhugl a hyderus. Mae'r ffaith honno yn ei hun yn golygu y dylid sicrhau rhyw lefel o amddiffynfa i ddsbarthiadau chwech, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae gwaith eithriadol wedi'i wneud gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y sector Addysg Uwch, a hyderwn y bydd yr un gamp yn bosib o fewn y sectorau newydd sy'n dod dan ei gwmpas, er mwyn datblygu ar y gwaith sydd wedi cychwyn yn y sector addysg bellach, a chael y maen i'r wal o safbwynt dysgu seiliedig ar waith. Er mwyn gwneud hynny, mi fydd angen sicrhau sefydlogrwydd cyllidol a strwythurol hirdymor i'r Coleg Cymraeg. Mae'r un gofynion yn berthnasol i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol os am sicrhau y gall wireddu ei photensial sylweddol iawn ym meysydd addysg i oedolion, gan gynnwys Cymraeg yn y Gweithle mewn amryw o feysydd proffesiynol.

Cwestiwn 100:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Awgrymwch y dylid rhoi ystyriaeth i greu Comisiwn sy'n cwmpasu nifer llai o'r categorïau o ddarparwyr yn y lle cyntaf, gan gynllunio i ymestyn i gategoriâu eraill dros gyfnod. Mae ceisio cwmpasu holl wahaniaethau cyfreithiol, rheoleiddiol, cyllidebol a diwylliannol gymaint o wahanol sectorau ar yr un pryd, ym marn UCAC, yn rhy uchelgeisiol. Byddai modd cychwyn gyda sectorau sydd eisoes yn fwy cydnaws â'i gilydd, creu amserlen sy'n cyd-fynd â datblygiadau eraill yn y sectorau perthnasol ar gyfer dod â nhw i mewn i'r cylch gorchwyl, a datblygu capasiti'r

Comisiwn ei hun yn raddol, gan roi gwell cyfle i sefydlu cyfundrefnau a dulliau gweithredu. Mae cynsail yma yn y ffordd yr ehangwyd Cyngor y Gweithlu Addysg.

Nid oes sôn yn y ddogfen ynghylch cyngor gyrfaoedd (heblaw am mewn perthynas â Chynlluniau Diogelu a Chynnydd Dysgwyr, pan fydd cwrs neu raglen yn dod i ben neu campws yn cau. Teimlwn y gallai bod rôl gan y Comisiwn yn y maes hwn gan y byddai ganddo orolwg o'r ddarpariaeth gyfan, y llwybrau dilyniant a'r opsiynau posib ym mhob ardal.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.